

Y Gwir Anrhydeddus Jo Stevens AS
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

20 Medi 2024

Annwyl Jo,

Is-ddeddfwriaeth a osodir yn Saesneg yn unig

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae fy Mhwyllgor wedi bod yn ceisio mynd i'r afael â mater y trafodwyd llawer arno mewn cysylltiad â gwneud a gosod rhai mathau o is-ddeddfwriaeth. Mae'r mater, yr ydym wedi tynnu sylw ato fel rhan o'n gwaith craffu, yn ymwneud â chyd-offerynnau ac offerynnau cyfansawdd, a Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor, sydd wedi'u gosod yn y Senedd yn Saesneg yn unig. Fel y byddwch yn gwerthfawrogi, mae hyn, yn anffodus, yn arwain at ddeddfwriaeth nad yw ar gael yn nwy iaith swyddogol y Senedd.

Deallwn fod un o'r rhwystrau canfyddedig i osod offerynnau o'r fath yn y ddwy iaith yn ymwneud â'r ffaith ei bod yn ofynnol iddynt gael eu gosod yn y Senedd ac yn Senedd y DU. Yn benodol, dywedwyd wrthym yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru fod gweithdrefnau Senedd y DU yn atal offerynnau dwyieithog rhag cael eu gosod.

Felly ysgrifennodd y Pwyllgor at gadeiryddion pwyllgorau yn Senedd y DU i ofyn am eu barn ar y rhwystr ymddangosiadol hwn. Mewn ymateb, dywedodd Cadeirydd Pwyllgor Gweithdrefnau Tŷ'r Cyffredin wrthym nad oes dim rhwystr gweithdrefnol na rhwystr arall i offeryn statudol sy'n cynnwys testun yn Gymraeg, gan gynnwys offerynnau dwyieithog, gael ei osod gerbron Tŷ'r Cyffredin os yw'r Ddeddf berthnasol yn gofyn hynny. Yn yr un modd, dywedodd Cadeirydd Pwyllgor Gweithdrefnau a Breintiau Tŷ'r Arglwyddi wrthym nad oes dim rhwystrau gweithdrefnol yn bodoli yn Nhŷ'r Arglwyddi a fyddai'n atal offeryn statudol rhag cael ei osod gerbron y Tŷ ar ffurf dau destun ar wahân yn y Gymraeg a'r Saesneg, pan fo gan y ddau destun statws cyfartal yn y gyfraith. Mae'r eitemau hyn o ohebiaeth o fis Ionawr 2024 ar gael ar wefan y Pwyllgor.



Wedi hynny, daeth y Pwyllgor â'r eitemau hyn o ohebiaeth i sylw Mick Antoniws AS, Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru ar y pryd, a ddywedodd wrthym mewn ymateb mai safbwynt "hirsefydlog" Llywodraeth y DU ar y pryd oedd y dylid gwneud cyd-offerynnau yn Saesneg yn unig. Dywedodd wrthym hefyd fod hyn yn gosod rhwystr sylweddol i Lywodraeth Cymru rhag gwneud offerynnau o'r fath yn y ddwy iaith.

Fel Pwyllgor, byddem yn ddiolchgar o gael deall eich safbwynt chi fel Llywodraeth newydd ar y mater hwn. Rydym o'r farn fod ffurfio Llywodraeth newydd yn gyfle i ddilyn dull gweithredu newydd, yn enwedig o ystyried nad yw'n ymddangos bod unrhyw rwystrau arwyddocaol eraill yn bodoli rhag llunio a gosod is-ddeddfwriaeth yn y ddwy iaith.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin ac at Ddarpar Gwnsler Cyffredinol a Gweinidog Cyflawni Llywodraeth Cymru.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Mike Hedges". The signature is written in a cursive style and is underlined with a single horizontal stroke.

Mike Hedges

Cadeirydd



Senedd Cymru
Welsh Parliament